Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Paratoi ar gyfer graddau

## Eich rhestr wirio cyn lansio

OGL © Hawlfraint y Goron 2025
WG51886

Digital ISBN 978-1-83715-466-1

# Paratoi ar gyfer graddau:
# Eich rhestr wirio cyn lansio

Er y bydd yn cymryd tua dwy flynedd i AGC gyhoeddi graddau ar gyfer pob gwasanaeth, mae'n bwysig eich bod yn treulio rhywfaint o amser yn paratoi ar gyfer graddau ac yn defnyddio'r amser hwn i adolygu rhai agweddau craidd ar eich gwasanaeth.

PWYSIG: Ar wahân i arddangos sgoriau, mae'n bwysig gwybod nad yw hyn yn waith newydd neu ychwanegol i chi.

Lluniwyd y rhestr wirio hon i'ch helpu i baratoi ar gyfer graddau.

## 1. Paratoadau arweinyddiaeth

- [ ] Ymgyfarwyddwch â Chanllawiau Arolygu AGC – mae hyn yn cynnwys disgrifyddion graddau.
- [ ] Adolygwch eich gweledigaeth a'ch gwerthoedd – a ydynt yn gyson â'r disgrifyddion ar gyfer da / rhagorol?
- [ ] Adolygwch eich Datganiad o Ddiben er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu eich gwasanaeth yn gywir.
- [ ] Trefnwch eich tystiolaeth o arferion cadarnhaol
- [ ] Cynlluniwch eich dull o wella'n barhaus.

### Cofiwch:

- Mae hwn yn gyfle i arddangos y gwasanaeth rydych yn ei ddarparu i bobl.
- Canolbwyntiwch ar yr hyn rydych eisoes yn ei wneud yn dda.
- Dylech adnabod meysydd lle gallwch wneud gwelliannau.
- Dylech gynnwys eich tîm cyfan mewn paratoadau – mae cydweithio yn allweddol.
- Cadwch bobl wrth wraidd popeth a wnewch.

## 2. Paratoi ar gyfer arddangos graddau

- [ ] Dylech adnabod y lleoliad gorau ar gyfer arddangos eich graddau ffisegol.
- [ ] Adolygwch strwythur eich gwefan er mwyn adnabod lle bydd graddau yn cael eu harddangos.
- [ ] Sicrhewch fod eich Cyfrif AGC Ar-lein yn gyfredol.
- [ ] Sicrhewch fod gennych y galluedd technegol i ychwanegu'r teclyn pan fydd ar gael.
- [ ] Cynlluniwch sut y byddwch yn arddangos graddau ar gyfer gwasanaethau lluosog os yw'n berthnasol.

## 3. Ymgysylltwch â'ch tîm

- [ ] Dylech gynnal cyfarfodydd tîm er mwyn esbonio'r system graddau newydd.
- [ ] Helpwch staff i ddeall y pedair thema arolygu.
- [ ] Dylech greu cyfleoedd i staff rannu enghreifftiau o arferion cadarnhaol.
- [ ] Dylech annog syniadau i wella'r gwasanaeth.
- [ ] Cynlluniwch sut i gefnogi staff os nad yw'r graddau fel y disgwylir.

## 4. Adolygwch eich prosesau sicrhau ansawdd

- [ ] Adolygwch eich systemau monitro ansawdd cyfredol.
- [ ] Ystyriwch eich prosesau clir ar gyfer casglu adborth gan eich tîm, eich defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.
- [ ] Adolygwch eich cynlluniau gweithredu ar gyfer unrhyw feysydd i'w gwella a systemau ar gyfer olrhain y rhain.

## 5. Adolygwch eich prosesau sicrhau ansawdd

- [ ] Cynlluniwch sut fyddwch chi'n cyfathrebu graddau i bobl a'u teuluoedd.
- [ ] Ystyriwch sut y gallech ddefnyddio graddau mewn deunyddiau marchnata.

## 6. Oes angen cymorth arnoch?

- [ ] Ymunwch ag un o'n sesiynau gwybodaeth am raddau.
- [ ] Cewch y wybodaeth ddiweddaraf drwy ddarllen ein bwletinau misol i ddarparwyr